

DULL DIOGEL:

# RHEOLI PLÂU

**Mae rheoli plâu yn effeithiol yn hanfodol i gadw plâu allan o'ch safle a'u hatal rhag lledaenu bacteria.**

| PWYNT DIOGELWCH | PAM? | SUT YDYCH CHI'N GWNEUD HYN? |
| --- | --- | --- |
| Archwiliwch eich safle yn rheolaidd am arwyddion o blâu.<br>Fe allech chi gyflogi contractiwr rheoli plâu. Darllenwch y dull diogel 'Cyflenwyr a chontractwyr' yn yr Adran Rheoli. | Mae plâu yn cario bacteria niweidiol. | Pryd ydych chi'n edrych am blâu?<br><br>Ydych chi'n cyflogi contractiwr rheoli plâu?<br>Ydw ☐ Nac ydw ☐ |
| Archwiliwch nwyddau wedi'u dosbarthu yn drylwyr am arwyddion o blâu. Peidiwch â derbyn nwyddau os ydynt yn dangos arwyddion o blâu e.e. deunydd pecynnu wedi'i gnoi neu bryfed, e.e. chwilod. | Gallai plâu ddod i mewn i'ch safle drwy nwyddau a gaiff eu dosbarthu. | Sut ydych chi'n archwilio nwyddau a gaiff eu dosbarthu? |
| Cadwch ardaloedd allanol yn daclus heb chwyn. Gwnewch yn siŵr bod gan finiau gaeadau sy'n cau yn dynn a'u bod yn hawdd eu glanhau. Ewch ati i'w glanhau a'u diheintio yn rheolaidd. | Gall chwyn a sbwriel ddenu plâu a rhoi bwyd a llety iddynt. | Pa mor aml ydych chi'n archwilio ardaloedd allanol? |

| MATH O BLA | | ARWYDDION |
| --- | --- | --- |
| Llygod mawr a llygod |  | Olion troed bach mewn llwch, baw, tyllau mewn waliau a drysau, nythod, nwyddau neu ddeunydd pecynnu wedi'i gnoi, saim neu farciau iro, staeniau wrin ar ddeunydd pecynnu |
| Pryfaid, gan gynnwys rhai sy'n hedfan e.e. gwyfynod |  | Cyrff pryfaid, pryfaid byw, gweoedd, nythod, synau, cynrhon |

| MATH O BLA | | ARWYDDION O BLÂU |
|---|---|---|
| Chwilod du (*cockroaches*) |  | Wyau a phlisgyn wyau, 'crwyn' wedi'u bwrw, y pryfaid eu hunain, baw |
| Morgrug |  | Pentyrrau bach o dywod neu bridd, y pryfaid eu hunain, morgrug sy'n hedfan ar ddiwrnodau poeth |
| Adar |  | Plu, baw, nythod, sŵn, yr adar eu hunain |
| Chwilod a gwyfynod yr ŷd (*weevils*) |  | Pryfaid sy'n symud, yn enwedig mewn bwyd sych, cynrhon bach |

## BETH I'W WNEUD OS AIFF PETHAU O CHWITH

- Os ydych yn gweld arwyddion o blâu, ffoniwch gontractiwr plâu ar unwaith. Nodwch fanylion cyswllt eich contractiwr plâu ar y Rhestr gysylltiadau yn y dyddiadur.
- Os ydych yn credu bod plâu wedi dod i gysylltiad ag unrhyw offer, arwynebau neu gyfarpar, dylech eu golchi, eu diheintio a'u sychu i atal bacteria niweidiol rhag lledaenu.
- Os ydych yn credu bod plâu wedi dod i gysylltiad â bwyd mewn unrhyw ffordd, taflwch y bwyd

## SUT I ATAL HYN RHAG DIGWYDD ETO

- Cynhaliwch eich archwiliadau plâu yn amlach.
- Cynnal safonau uchel a chynnal a chadw'r adeilad er mwyn atal gweithgarwch.
- Dylech wella hyfforddiant staff ar adnabod arwyddion o blâu a'u hannog i roi gwybod am unrhyw broblemau ar unwaith.
- Os oes gennych broblemau cyson â phlâu, ystyriwch gyflogi contractiwr rheoli plâu, os nad oes gennych chi un yn barod.

**Nodwch beth aeth o'i le a sut aethoch chi i'r afael â'r sefyllfa yn eich dyddiadur.**

## MEDDYLIWCH DDWYWAITH!

Peidiwch byth â gadael i abwyd/cemegion rheoli plâu, gan gynnwys chwistrellau, ddod i gysylltiad â bwyd, deunydd pecynnu, offer neu arwynebau, gan eu bod yn debygol o fod yn wenwynig i bobl.

## RHEOLI

- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw fwyd neu blatiau budr ac ati yn cael eu gadael allan dros nos – maent yn ffynhonnell o fwyd i blâu.
- Gwnewch yn siŵr bod archwiliadau plâu yn cael eu cynnal yn rheolaidd.
- Gwnewch nodiadau i'ch atgoffa pryd i chwilio am blâu yn eich dyddiadur.
- Os oes gennych chi gontractiwr plâu, cofiwch gadw cofnod o'i fanylion cyswllt a'i ymweliadau. Nodwch unrhyw adborth/camau gweithredu a argymhellir ganddo. Nodwch hefyd pa bryd yr aethoch ati i gymryd y camau hyn.